Cardiff and Vale University Health Board
**Unpaid Carers Information Service**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Di-dâ**

# Cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol

## Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Pan fyddwch yn cysylltu gyntaf â'r gwasanaethau cymdeithasol, byddwch fwy na thebyg yn siarad â rhywun yn adran Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) eich awdurdod lleol.

Os yw'r wybodaeth sydd ei hangen gennych, fel manylion clybiau cinio lleol er enghraifft, gall hyn gael ei ddarparu drwy'r gwasanaeth GCC heb orfod cwblhau asesiad. Os nad yw gwybodaeth gyffredinol yn ddigon i fodloni eich anghenion, neu anghenion y person sy'n derbyn gofal gennych, gofynnir cwestiynau i chi fel rhan o asesiad i sicrhau eich bod yn derbyn y cyngor a'r cymorth iawn.

Os oes angen cyngor arnoch ynglŷn â gwasanaethau o fewn y gymuned, budd-daliadau, offer ar gyfer eich cartref ac ati, mae'n bosib y cewch chi'r wybodaeth yma dros y ffôn, neu eich cyfeirio at y sefydliadau perthnasol, neu mae'n bosib y caiff atgyfeiriad ei wneud ar eich rhan, er enghraifft am asesiad Therapi Galwedigaethol.

Os yw hi'n ymddangos bod gan y person yr ydych yn gofalu amdano anghenion na ellir eu diwallu ond gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, byddan nhw'n cael eu cyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Cewch gynnig Asesiad i Ofalwyr os ydych yn darparu gofal i oedolyn, hyd yn oed os yw asesiad yn cael ei wrthod i'r person yr ydych yn gofalu amdano, neu eu bod yn gwrthod asesiad eu hunain.

## Asesiad i'r person sydd angen gofal a chymorth

Bydd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr iechyd proffesiynol yn asesu anghenion y person yr ydych yn gofalu amdano. Fel eu gofalwr, dylech gyfrannu at yr asesiad hwn, gan ei bod yn bwysig fod y person sy'n cwblhau'r asesiad yn gwybod faint a pha fath o ofal yr ydych yn gallu ac yn barod i'w ddarparu. Caiff Cynllun Gofal a Chymorth ei gwblhau os yw'r person yr ydych yn gofalu amdano yn gymwys i dderbyn cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Diweddaru 2023

Mae'r cynllun hwn yn manylu ar anghenion y person yr ydych yn gofalu amdano, ac yn esbonio pa wasanaethau fydd yn cael eu cynnig i fodloni'r anghenion hynny, a sut y byddan nhw'n cael eu darparu.

Gallai'r gefnogaeth fydd ar gael gynnwys:

- Cymorth gyda gofal personol
- Gwasanaethau dydd
- Cyfarpar ac offer i helpu gyda byw o ddydd i ddydd
- Gofal seibiant i chi gael hoe

## Asesiad Gofalu

Os ydych, neu os fyddwch chi'n gofalu am oedolyn sy'n methu byw yn annibynnol heb eich gofal, gallwch gael Asesiad Gofalwr Bydd yr asesiad yn edrych ar eich anghenion fel gofalwr, a gall drafod cymorth fel:

- Cyfle i gael hyfforddiant ar godi a chario
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau i ofalwyr
- Cynlluniau cyfeillio
- Grwpiau cymorth

Mae gwasanaethau i ofalwyr yn gysylltiedig â'r person yr ydych yn gofalu amdano, felly os ydych chi'n gofalu am rywun yng Nghaerdydd mae angen i chi gysylltu â Chyngor Dinas Caerdydd. Yn yr un modd, os yw'r person yr ydych yn gofalu amdano yn byw ym Mro Morgannwg, rhaid i chi gysylltu â Chyngor Bro Morgannwg.

## Talu am Wasanaethau

Os yw'r person sy'n derbyn gofal gennych wedi'i asesu ac yn gymwys i dderbyn gwasanaethau, mae'n bosib y bydd rhaid iddyn nhw gyfrannu at y gost. Ni ellir gofyn i chi gyfrannu at gost y gwasanaethau ar eu cyfer, ond os ydych yn briod â nhw, neu'n bartner iddyn nhw, caiff unrhyw incwm neu gynilon ar y cyd eu hystyried. Mae cost y gwasanaethau yn amrywio, ond mae'n seiliedig ar eu gallu i dalu, ac mae'n bosib eu bod nhw'n gymwys i gael y gwasanaethau am ddim.

Nid yw hi'n orfodol i gael asesiad ariannol, ond hebddo, bydd rhaid talu'n llawn am y gwasanaeth, hyd at bris mwyafswm. Mae trothwy ar y cyfalaf sydd gan unigolyn, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol, ac mewn rhai achosion bydd rhaid talu'n llawn am y cymorth. Rhaid cofio nad yw pob math o gyfalaf yn cael ei ystyried yn yr un ffordd. Oherwydd hyn, argymhellir bod y person sy'n derbyn eich gofal yn cael yr asesiad ariannol.

Os yw'r person sy'n derbyn eich gofal yn talu'n llawn am eu gwasanaethau, mae dewis ganddynt i beidio defnyddio'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y gwasanaethau cymdeithasol, ond i ddod o hyd i ofal amgen eu hunain. Mae gan Gyngor y Fro gyfeirlyfr o wasanaethau gofal – ffoniwch Ganolfan Gyswllt Un Fro ar 01446 700111 i gael copi.

## Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffordd i bobl wneud eu trefniadau gofal eu hunain. Yn hytrach na derbyn gwasanaethau drwy'r adran gwasanaethau cymdeithasol gallwch ddewis derbyn yr arian a phrynu'r gwasanaethau o rywle arall. Mae hyn yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i chi ac i'r person sy'n derbyn eich gofal.

Mae rhai amodau ar Daliadau Uniongyrchol, felly bydd rhaid i chi drafod hyn gyda'r person sy'n cwblhau eich asesiad. Mae'n bosibl y gallan nhw roi mwy o gyngor, neu eich cyfeirio at Swyddog Taliadau Uniongyrchol os yw'n briodol.

## Manylion Cyswllt

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol perthnasol am Wybodaeth, Cyngor a Chymorth, neu i ofyn am asesiad:

Caerdydd - Gwasanaeth Byw'n Annibynnol - 029 20 234 234
Bro Morgannwg – Cyswllt Un Fro - 01446 700111

Cardiff and Vale University Health Board
**Unpaid Carers Information Service**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Di-dâ**

# Rydym yma i helpu



**Suzie Becquer-Moreno**
**Arweinydd Gofalwyr**



**Sarah Davies**
**Rheolwr Canolfan Wybodaeth a Chymorth**

Ffôn: 029 21845692

Ebost: pe.cav@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Patient Experience
Profiad y Claf